



SWYDDOGOL
Gweithredol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

ADRODDIAD CYDYMFFURFIAETH 2024

01/04/2023 – 31/03/2024

Cyflwyniad

Lluniwyd y papur hwn er mwyn rhoi trosolwg cryno o gydymffurfiaeth o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu dros y cyfnod o Ebrill 2023 – Mawrth 2024.

Cynnwys

1. Gofynion Cyhoeddi
2. Y Gymraeg
3. Rheoli Gwybodaeth
4. Rheoli Cofnodion
5. Rhyddid Gwybodaeth
6. Cais Gwrthrych am Wybodaeth
7. Perygl
8. Parhad Busnes
9. Gorchymyn Protocol Plismona 2023
10. Hyfforddiant
11. Gwaith Polisi

1. Gofynion Cyhoeddi

Disgwylir i SCHTh gyhoeddi peth wmbreth o wybodaeth ar gyfnodau amrywiol yn ystod y flwyddyn er mwyn bod yn dryloyw, rhoi gwybodaeth i breswylwyr a chydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i bob SCHTh lynu wrth y gofynion fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2021. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau y bydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n cyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:

- Pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud
- Beth maen nhw'n gwario a sut maen nhw'n ei wario
- Beth yw eu blaenoriaethau a sut maen nhw'n dod ymlaen
- Sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau
- Pa bolisiau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu gweithrediad swyddfa CHTh
- Rhestri a chofrestri

Ers i CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – Arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu) roi'r gorau i gynnal asesiadau o'r ffordd y mae Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n bodloni eu rhwymedigaethau statudol ar gyfer tryloywder, mae'r Swyddfa'n parhau'n ymwybodol o ganllawiau cyhoeddi 2013 y Swyddfa Gartref ar gyhoeddi gwybodaeth. Mae'r Swyddfa Gartref yn datgan:

“Mae angen gwybodaeth annibynnol, gyson a chlir ar y cyhoedd am berfformiad a gweithgareddau eu CHTh. Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn hybu hyder yn y CHTh etholedig. Bydd isafswm gofynnol cyson o dystiolaeth hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd gymharu perfformiad eu CHTh nhw â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn ardaloedd eraill.”

Datblygwyd gwefan newydd yn ystod 2023/2024, ac fel rhan o'r datblygiad, cynhaliwyd gwiriadau manwl gan y swyddfa gyfan er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth a oedd yn cael ei throsglwyddo i'r wefan newydd yn ddiweddar ac yn adlewyrchu gwaith y swyddfa. Bydd y Pennaeth Sicrwydd a'r Rheolwr Busnes dal yn cynnal gwiriadau rheolaidd.

2. Y Gymraeg

SWYDDOGOL
Gweithredol


Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a dylent ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Yn ôl y sefyllfa ym mis Ebrill 2019, gofyniad mynediad y Gymraeg ar gyfer yr holl staff a swyddogion yw gallu sgwrsio i safon lefel 1. Bydd staff a swyddogion presennol nad oes ganddynt allu yn y Gymraeg yn cael eu cefnogi i gyrraedd Cymraeg Lefel 1.


Sgiliau Iaith Gymraeg

Lefel 0	Dim Gallu
Lefel 1	Gallu Cyfarch
Lefel 2	Gwybodaeth Sylfaenol
Lefel 3	Gallu Sgwrsio
Lefel 4	Ffurfiol/Gallu Sgwrsio
Lefel 5	Llawn a Chywir

Nifer aelodau staff y SCHTh sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:



SWYDDOGOL
Gweithredol



Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau â'i threfn monitro cydymffurfiaeth. Ar ddiwedd 2023, gwriodd Comisiynydd y Gymraeg wasanaethau Cymraeg SCHTh. Roedd canlyniadau'r monitro a chydymffurfiaeth yn gadarnhaol iawn ac mae SCHTh wedi datblygu'r camau gweithredu er mwyn bodloni'r safonau cyflenwi gwasanaeth disgwylidig.

Yn dilyn y gwiriadau, nododd Swyddog Comisiynydd y Gymraeg 5 prif ganfyddiad yr oedd angen i'r Swyddfa fynd i'r afael â nhw:

- **Cyfryngau Cymdeithasol**

Yn ystod y gwiriadau, ymddangosai fod anghysondeb o ran negeseuon Cymraeg a Saesneg ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd negeseuon Saesneg yn aml yn ymddangos ddwywaith tra bod negeseuon Cymraeg ond yn ymddangos unwaith.

Ymchwiliodd tîm cyfathrebu SCHTh i'r negeseuon perthnasol, gan ddileu unrhyw negeseuon anghyson. Mae gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn awr er mwyn sicrhau cysondeb negeseuon yn Gymraeg a Saesneg.

- **Dogfennau**

SWYDDOGOL
Gweithredol

Wrth wirio'r wefan, nodwyd nad oedd dogfen yn arddangos y datganiad bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Nodwyd y byddai hyn yn cael ei unioni wrth gyflwyno gwefan newydd SCHTh, a fyddai'n sicrhau bod pob dogfen yn cynnwys y datganiad perthnasol.

▪ **Ffurflenni**

Nodwyd bod gan ffurflen a ddefnyddir gan sefydliadau i wneud cais am arian gan y Comisiynydd gyfeiriad Saesneg ar ddiwedd yr adroddiad. *Unionwyd hyn yn syth ar ôl y cyfarfod gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg lle y tynnwyd sylw at hyn.*

▪ **Polisi Dyfarnu Grantiau**

Ni ddaethpwyd o hyd i wybodaeth am y ffordd y dylai sefydliadau sy'n gwneud cais am arian fod yn cofleidio'r Gymraeg. *Mae'r ffurflenni a ddefnyddir gan sefydliadau i wneud cais am arian nawr yn cynnwys adran benodol ar sut y gall y gweithgarwch prosiect gofleidio'r Gymraeg ac yn gofyn am resymau pam na all y prosiect gofleidio'r Gymraeg.*

▪ **Gweithdrefn Gwyno**

Nodwyd adeg yr adolygiad pen desg nad oedd y weithdrefn gwyno'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd y byddai SCHTh yn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg. *Diweddarwyd y wybodaeth hon cyn y cyfarfod gyda'r cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.*

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dorri gofynion o ran y Gymraeg gan SCHTh yn y flwyddyn ariannol hon ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y swyddfa â Safonau'r Gymraeg.

Hyfforddiant – Yn ystod 2023/2024, fel rhan o'u Proffil Asesu Datblygiad (PAD), pennwyd amcan penodol i staff mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae gan y broses PAD gerrig milltir allweddol mewn blwyddyn. Yn 2023/2024, gosodwyd amcanion erbyn 31 Gorffennaf 2023. Cynhaliwyd adolygiadau interim o gynnydd yn erbyn yr amcanion ym mis Hydref/Tachwedd 2023, a chynhaliwyd adolygiad diwedd blwyddyn terfynol rhwng 1 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2024.

SWYDDOGOL Gweithredol

Yn ystod y cyfnod, roedd disgwyl i staff roi tystiolaeth yn y PAD o'r canlynol:

- Sut yr oeddent wedi hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol neu'n allanol
- Sut yr oeddent wedi gwella eu sgiliau Cymraeg uwchlaw'r gofyniad lleiaf, sef lefel 1
- Sut maen nhw wedi glynu wrth Safonau'r Gymraeg

Drwy'r broses, galluogwyd staff i nodi meysydd lle y gallent wella eu defnydd a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg.

Anogir staff o fewn SCHTh i ymgymryd ag unrhyw gyrsiau Cymraeg y teimlir eu bod yn berthnasol a phriodol. Mae gan y staff fynediad i'r holl gyrsiau sydd ar gael i Swyddogion a Staff yr Heddlu, ac maen nhw'n amrywio o ran cymhlethdod, gan ddibynnu ar lefel y gofyniad.

Yn ystod 2023/2024, cymerodd rhai aelodau staff fantais o'r cyrsiau Cymraeg ar-lein i wella eu sgiliau. Ar ôl mynychu'r cyrsiau hyn, mae dau aelod staff wedi cofrestru ar gyfer cwrs er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg i Lefel 2.

Mae'r Swyddfa'n mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyrsiau y gellir eu cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg. Nodwyd un cyfle mewn perthynas â hyfforddiant Urddas a Pharch, fodd bynnag, oherwydd salwch, bu'n rhaid canslo'r cwrs hwn. Bydd yn cael ei aildrefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Rheolwr Busnes yn mynd i gyfarfodydd chwarterol Yr Iaith ar Waith, sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y problemau presennol sy'n wynebu'r heddlu mewn perthynas â'r Gymraeg.

3. Rheoli Gwybodaeth

Rheoli Gwybodaeth yw'r broses o gasglu, cadw, rheoli a chynnal gwybodaeth o bob math. Rhaid i SCHTh gadw at y gofynion cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data (2018) a Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Cofnodwyd 3 achos posibl o dorri rheoliadau diogelu data o fewn SCHTh eleni:

E-byst a dderbyniwyd ym mewnlwch SCHTh gan sefydliadau allanol a oedd yn cynnwys data personol unigolion oedd yr holl achosion posibl o dorri rheoliadau diogelu data. Hysbyswyd yr anfonwyr am eu camgymeriad ac fe'u cynghorwyd i roi gwybod i'w Swyddog Diogelu Data. Dilëwyd pob e-bost ddwywaith o'n systemau.

SWYDDOGOL Gweithredol

Ym mhob amgylchiad, cofnodwyd yr achosion o dorri gofynion ar unwaith a chymerwyd y camau priodol. Hysbyswyd Swyddog Diogelu Data SCHTh. Ni ystyriwyd bod yr un o'r achosion uchod yn achosion y dylid adrodd amdanynt o dan GDPR y DU.

4. Rheoli Cofnodion

Mae SCHTh wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i SCHTh sicrhau bod ei chofnodion yn bodloni'r safonau angenrheidiol i ymdrin yn effeithiol â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Gyda Microsoft 365 wedi'i gyflwyno ar draws y swyddfa a nodweddion ychwanegol y pecyn Teams, mae staff yn cadw mwy o ddogfennau ar Teams. Dechreuodd gwaith yn ystod y flwyddyn i adolygu dogfennau er mwyn cadarnhau pa rai yr oedd angen eu cadw a pha rai y gellid eu dileu. Mae sawl aelod o'r tîm wedi cyflawni'r gwaith hwn drwy ganolbwyntio ar eu meysydd busnes penodol.

Mae'r Rheolwr Busnes yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth yr Heddlu sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y materion cyfredol y mae'r Heddlu'n eu hwynebu o ran rheoli cofnodion.

5. Rhyddid Gwybodaeth

Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn ddarostyngedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am unrhyw wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdod cyhoeddus. Mae'r hawl ond yn cwmpasu gwybodaeth gofnodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, mewn negeseuon e-bost ac mewn dogfennau argraffedig neu ysgrifenedig, yn ogystal â delweddau, recordiadau fideo a sain. Rhaid i SCHTh ymateb i bob cais o'r fath o fewn 20 diwrnod gwaith.

Derbyniwyd 40 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ym mlwyddyn ariannol 2023-24, sef gostyngiad o 35 o'r flwyddyn flaenorol.

Dim ond 17 o'r rhain oedd yn geisiadau lle'r oedd gan SCHTh y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Anfonwyd 23 i'r Heddlu gyda chaniatâd y ceisydd gan y

SWYDDOGOL Gweithredol

gallai'r wybodaeth fod ganddyn nhw. Roedd y ceisiadau yr oedd gan SCHTh wybodaeth mewn perthynas â nhw'n cynnwys:

- Gwasanaethau a gomisiynir
- Gwariant y swyddfa
- Materion staffio
- Diogelu data
- Troseddau cyllyll
- Cyfieithu

Ymatebwyd i dri chais tu allan i'r amserlen reoleiddiol. Mae gwaith pellach wedi'i wneud er mwyn sicrhau yr osgoir hyn yn y dyfodol.

Mae gan SCHTh fynediad at geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn deall themâu'r ceisiadau sy'n cael eu gwneud. Mae testun ceisiadau gwybodaeth a gyflwynir i'r Heddlu'n amrywio, a gallant gael eu dylanwadu gan bynciau o ddiddordeb cyffredinol yn y wasg/cyfyngau ac o ddiddordeb neu bryder i'r cyhoedd. Derbyniodd yr Heddlu 1189 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2023-24, sydd 114 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Heddlu wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran amseroldeb ymatebion a ddigwyddodd yn 2022/23 a pharhaodd SCHTh i fonitro'r perfformiad yn ystod y flwyddyn.

6. Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i sefydliad a ydynt yn defnyddio neu'n cadw eu gwybodaeth bersonol ai peidio. Gall unigolyn hefyd ofyn am gopiau o'i wybodaeth bersonol, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gelwir hyn yn hawl mynediad ac fe'i gelwir yn gyffredin yn gais gwrthrych am wybodaeth. Yn ôl deddfwriaeth, rhaid i SCHTh ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis.

Cyfrifoldeb SCHTh yn unig yw ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth.

Derbyniwyd 15 cais gwrthrych am wybodaeth y flwyddyn ariannol hon; fodd bynnag, nid oedd gan SCHTh wybodaeth am 14 o'r testunau. Anfonwyd manylion atynt i gyd yn nodi sut i wneud eu cais i'r Heddlu os mai dyma'r hyn yr oeddent am ei wneud. Roedd thema debyg yn perthyn i'r ceisiadau i gyd, gyda

SWYDDOGOL Gweithredol

phobl yn gofyn am fanylion am rybuddion yr oeddent wedi'u derbyn, cofnodion o ddigwyddiadau ac ati.

Roedd SCHTh yn dal gwybodaeth am un cais. Casglwyd y wybodaeth hon a'i hanfon at yr unigolyn o fewn yr amserlenni deddfwriaethol.

Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, caiff gyflwyno cais am adolygiad i'r Corff Adolygu Perthnasol, naill ai Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Teimlai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y byddai hyn yn arwain at gynnydd mawr yn nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth i Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd ar gyfer Dyfed-Powys. Derbyniwyd 59 cais yn ystod 2023/2024.

7. Risg

Mae'r Rheolwr Busnes yn cynnal Cofrestr Risg Corfforaethol SCHTh ac yn adrodd ar hyn yn rheolaidd wrth yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

Er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth o'r holl beryglon, mae adroddiadau hefyd yn cael eu cynhyrchu pan fod angen er mwyn tynnu sylw at unrhyw feysydd perygl newydd, y rhai sydd i'w gollwng a'r rhai hynny lle mae'r perygl wedi dwysáu neu leihau.

Yn ystod 2023-24, datblygwyd y maes risg i ddilyn ffurf yr Heddlu er mwyn sicrhau cysondeb. Croesawodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed ac maen nhw'n medru ystyried y maes risg yn fanylach.

Anfonir gohebiaeth yn rheolaidd at bob aelod staff yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw risgiau y gallai fod angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, yn arbennig mewn perthynas â diogelwch seiber lle mae risgiau'n dod i'r amlwg ar yn rheolaidd.

8. Parhad Busnes

Mae pecyn cymorth Rheoli Parhad Busnes (RhPB) SCHTh ar waith i sicrhau bod staff yn gwybod beth i'w wneud pe bai sefyllfa'n codi lle terfir ar fusnesau ac na

SWYDDOGOL
Gweithredol

ellir cynnal arferion gwaith arferol. Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu sut y byddai'r swyddfa'n ymateb yn effeithiol i adfer ei gweithgareddau a'i gwasanaethau.

Roedd RhPB SCHTh fod cael ei adolygu yn 2023-24, ond gohiriwyd hyn oherwydd adolygiad llawn o'r broses gan yr Heddlu. Bydd y Rheolwr Busnes yn ymgysylltu ag Uwch Reolwr yr Uned Llywodraethu a Gwella Gwasanaethau i fireinio'r RhPB unwaith y bydd y broses wedi'i chytuno a'i gweithredu.

9. Gorchymyn Protocol Plismona 2023 – Archwiliad Iechyd

Mae Adran 70 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas o bedwar tu, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2023, datblygodd SCHTh archwiliad iechyd yn 2018 sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer cyfreithiol a dyletswydd drostynt.

Mae'r archwiliad iechyd bellach yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes fyfyrion ar gofnodion blaenorol a newid arferion adrodd yn ôl y gofyn. Tra bod y Swyddfa'n ystyried ffyrdd amgen o gipio'r wybodaeth hon, mae fersiwn 5 wedi'i baratoi ar gyfer y flwyddyn 2023 – 24.

Mae pob maes busnes o fewn SCHTh yn cyfrannu at yr archwiliad iechyd bob chwarter drwy gofnodi gwybodaeth reoli a chrynodebau o ba waith y maent wedi'i wneud er mwyn bodloni'r manylebau gofynnol.

Cynhyrchir adroddiad o'r crynodebau hyn a gyflwynir i'r Panel Heddlu a Throseddu ac a gyhoeddir ar wefan SCHTh.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, ystyrir sut y gellir asio'r wybodaeth yr adroddir amdani gydag adrodd am gynnydd o ran Cynllun Busnes SCHTh.

10. Hyfforddiant

Rhoddir cyfle i holl aelodau staff SCHTh fynd i sesiynau hyfforddi rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr offer a'r sgiliau i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r system arfarnu (Proffil Asesu Datblygiad) yn caniatáu i reolwyr llinell fonitro hyfforddiant staff a thrafod unrhyw ofynion.

Datblygwyd cynllun hyfforddi wedi'i brisio'n llawn ar gyfer 2023-24 ac roedd staff yn medru gofyn am gyfleoedd hyfforddi perthnasol i'w hystyried. Ystyriwyd y cynllun gan yr Uwch Dîm Rheoli, a lle bo'n briodol, cytunwyd i'r ceisiadau am hyfforddiant.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i'r holl staff ymgymryd â modiwlau NCALT gorfodol (y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol) ar amrywiaeth o bynciau er mwyn sicrhau eu bod yn wybodus am bynciau sy'n effeithio arnynt, e.e. Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data, Gweithio Ar Eich Pen eich Hun.

Mae adegau pan fydd yr Heddlu'n gofyn i fodiwl NCALT penodol gael ei gwblhau gan yr holl staff. Mae'r Rheolwr Busnes yn cyfleu hyn i'r holl staff ac yn ei roi ar y matrices hyfforddiant. Mae ceisiadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi cynnwys Hyfforddiant ar Beidio â Chadw'n Dawel, Aflonyddu Rhywiol, y Cod Moeseg a Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.

Ym mis Mehefin 2023, derbyniodd staff SCHTh hyfforddiant gloywi ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a dyletswyddau Cydraddoldeb cyffredinol. Cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn yn ystod sesiwn ddysgu amser cinio. Atgoffwyd staff y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw Bolisi, Gweithdrefn neu weithgarwch y mae SCHTh yn ymgymryd â nhw. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n gwneud pob ymdrech i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb, a sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg. Yn 2023/2024, cynhaliodd y Swyddfa ddau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd un yn ymwneud â gosod y praesept ar gyfer 2024/2025, ac roedd un yn ymwneud â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.

11. Ymatebion AHEF

Cyflwynwyd 15 ymateb i AHEF yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Archwiliad o ba mor dda mae'r heddlu'n mynd i'r afael â thrais difrifol gan bobl ifainc

SWYDDOGOL
Gweithredol

- Archwiliad o ba mor dda mae'r heddlu'r a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn mynd i'r afael â cham-drin rhywiol a chamfanteisio ar blant ar-lein
- Cyflwr Plismona: Aseiad Blynyddol 2022 o Blismona yng Nghymru a Lloegr
- Perfformiad yr Heddlu: Gafael ynddi

- Rheoli troseddwr terfysgol yng ngoleuni ymosodiadau terfysgol

- Archwiliad o ba mor effeithiol mae heddluoedd wrth ddefnyddio arfau saethu
- Hil a phlismona - Adolygiad o drefniadau arwain a llywodraethu'r gwasanaeth heddlu ar gyfer materion hil
- Hil a Phlismona: Arolwg anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol
- Atal Dynladdiad: Archwiliad o gyfraniad yr Heddlu tuag at atal dynladdiad
- PEEL 2023–25 – Archwiliad o Heddlu Dyfed-Powys
- Bodloni Anghenion Dioddefwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol
- Uwch-gŵyn y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol - Adran 60
- Grwpiau'n Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Effaith recriwtio a dethol ar y system cyfiawnder troseddol
- Archwiliad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i gam-drin ac esgeuluso plant ym Mhowys